# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## (Preifat)

### 1 Lobïo: Comisiynydd Safonau

(09.00 - 09.15)

Gerard Elias CF - y Comisiynydd Safonau

## (Cyhoeddus)

### 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

### 3 Lobïo: Trafod papur gan y Comisiynydd Safonau

(09.15-09.35) (Tudalennau 1 - 4)

SoC(5)-03-16 Papur 1

Gerard Elias CF - y Comisiynydd Safonau

### 4 Sesiwn ymadawol gyda'r Comisiynydd Safonau

(09.35 - 10.05)

Gerard Elias CF - y Comisiynydd Safonau

## 5 Ethol Cadeirydd dros dro yn unol ag Adran 10.2 o'r weithdrefn gwyno

(10.05)

Eitem 3

COMISIYNYDD SAFONAU STANDARDS COMMISSIONER

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

**SoC(5)-03-16 Papur 1**

**15 Tachwedd 2016**

**Ymchwiliad i lobïo – Nodyn gan Gerard Elias CF, y Comisiynydd Safonau**

1. Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016, o dan eitemau 4 a 5 ar yr agenda, gofynnodd y Pwyllgor am fy sylwadau ar feysydd posibl y gallai'r Pwyllgor ymgynghori arnynt mewn perthynas â'i adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer lobïo.

2. Yng ngoleuni'r ffaith bod deddfwriaeth yn ddiweddar mewn perthynas â lobïo, rwyf wedi ymgynghori'n uniongyrchol, er am fyr dro, ag adrannau cyfatebol yn San Steffan ac yn yr Alban.

3. Yn Nhŷ'r Cyffredin, cafodd y Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu gan Grwpiau Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur Gydsyniad Brenhinol yn 2014 ac fe ddaeth i rym yn llawn ym mis Mehefin eleni. I'r graddau y mae'n effeithio ar weithgarwch lobïo, ymddengys mai at y rhai sy'n lobïo Gweinidogion Llywodraeth neu uwch-weision sifil y mae'r Ddeddf wedi cael ei hanelu.

4. Penodwyd Cofrestrydd annibynnol i sefydlu a "phlismona" y gofrestr. Mae cost sylweddol i gwmnïau neu unigolion o ran cofrestru. Ni chafwyd effaith ar swyddfa'r Comisiynydd Safonau hyd yn hyn, nid yn lleiaf oherwydd, fel yng Nghymru, nid oes gan y Comisiynydd awdurdodaeth dros ymddygiad Gweinidogion yn gweithredu fel y cyfryw.

5. Pe bai'r Pwyllgor yn ystyried argymell cofrestr statudol o lobïwyr, yn ddi-os byddai goblygiadau sylweddol o ran adnoddau. **Mae'n bosibl y gall tystiolaeth y Cofrestrydd newydd yn Llundain** daflu goleuni ar y ffigurau'n debygol.

Y Pierhead
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
—
Ffôn: 0300 200 6539
E-bost: Comisiynydd.Safonau@cynulliad.cymru
—
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Pierhead
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
—
Tel: 0300 200 6539
Email: Standards.Commissioner@assembly.wales
—
We welcome correspondence in both English and Welsh

6. Yn yr Alban, cafodd y Ddeddf Lobïo (yr Alban) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill. Yn y bôn, mae'n cwmpasu lobïo am dâl yn unig, ond mae Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru yn fanwl unrhyw gyfarfod lobïo, gan gynnwys personél a diben y cyfarfod.

7. Unwaith eto, gan mai i Glerc y Senedd y rhoddwyd y dasg o gynnal, diweddaru a phlismona'r gofrestr, mae'r gost heb os yn sylweddol. Mewn perthynas â chostau sefydlu a chynnal system o'r fath yng Nghymru, gall profiad diweddar **Clerc y Senedd** (neu'r sawl a benodwyd yn ei Swyddfa), felly, fod yn werthfawr yn hyn o beth.

8. Efallai ei bod yn werth sôn am y ffaith i Lywodraeth yr Alban fabwysiadu Bil a ddechreuodd fel Bil Aelod preifat. Mae'n ymddangos, efallai, fod Bil sydd â'r bwriad o ddarparu gwybodaeth am weithgareddau Gweinidogion yn annhebygol o lwyddo heb gefnogaeth y Llywodraeth. Hefyd, mae'n ymddangos mai nod y ddeddfwriaeth yn yr Alban yw rheoleiddio lobïo am dâl, gan wahardd y rhan fwyaf o lobïo ar ran elusennau o ganlyniad.

9. Ymhellach, dichon y bydd y Pwyllgor am wybod ei bod yn ymddangos mai bwriad y Gofrestr yn y ddwy ddeddfwrfa yw ategu'r trefniadau i Weinidogion Llywodraeth ddatgelu yn wirfoddol ac yn rheolaidd â phwy maent yn cyfarfod trwy, er enghraifft, ddatgelu dyddiaduron neu gofrestr o gyfarfodydd gweinidogol.

10. Heb awgrymu bod yr hyn a adroddais bedair blynedd yn aros yn ddilys o reidrwydd, mentraf atodi rhannau o'm Hadroddiad dyddiedig 1 Hydref 2012. Gallaf ddweud er hynny na ddaeth dim cwynion i'm llaw mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar lobïo yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gerard Elias CF**
**Y Comisiynydd Safonau**

**Atodiad**

***"Fy nghanfyddiadau***

*Gan ystyried y canlynol yn benodol:*

- *Mai barn unfryd pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad sy'n gweithredu yng Nghymru a/neu yn y Cynulliad Cenedlaethol yw bod arferion lobïo, yn eu hanfod, yn dryloyw a'u bod yn cael eu plismona a'u rheoleiddio'n ddigonol;*

- *bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer Cofrestru a Datgan "rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol" o unrhyw fath i‟r Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol i‟r Aelod, ac ar lefel (tua £279) sylweddol is na Seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig, heblaw am un, ac yn uwch, ond yn unol â‟r lefel yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon;*

- *bod Rheol Sefydlog 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benodol yn gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth (2.8) ac yn darparu ar gyfer yr hawl i wahardd Aelod os bydd yn torri'r rheolau (2.10/11);*

- *nad oes cwyn yn ymwneud â lobïo wedi'i gwneud yn erbyn Aelod mewn blynyddoedd diweddar – neu, cyn belled ag y gwyddai'r Comisiynydd, ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol*

- *bod y gyfraith droseddol yn darparu ar gyfer derbyn, neu roi, rhoddion neu lwgrwobrwyon gan, neu i, bobl mewn swyddi cyhoeddus mewn modd amhriodol;*

*a chan gofio*

- *bod angen cynnal diwylliant 'agored' y Cynulliad Cenedlaethol ac argaeledd ei Aelodau, fel nad yw'r broses ddemocrataidd yn cael ei llyffetheirio;*

- *bod angen cynnal tryloywder ac argaeledd rhwydd i'r cyhoedd, y bobl sy'n gwneud penderfyniadau a phobl eraill sydd â diddordeb o ran canfod beth sy'n dylanwadu ar eu cynrychiolwyr etholedig; a*

- *bod angen cymesuredd, o ran defnyddio adnoddau a'r baich ar Aelodau Cynulliad a lobïwyr o ran datrys unrhyw broblemau canfyddedig yn y maes hwn,*

***Rwy'n gadarn o'r farn bod y trefniadau presennol sydd yn eu lle ar gyfer rheoleiddio lobïo, fel y maent yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn eu hanfod yn ddigon cadarn ac addas i'r diben.***

> *"Efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried mesur ymarferol a chymesur posibl, sef argymell bod y diwydiant yng Nghymru (yn cynnwys e.e. lobïwyr proffesiynol a sefydliadau elusennol) yn gwirfoddoli i gyhoeddi (mewn cofrestr neu drwy broses dderbyniol arall) bob chwarter/hanner blwyddyn neu yn flynyddol, y wybodaeth ganlynol, neu rannau ohoni:*

- *Enw'r sefydliad lobïo;*
- *ei aelodau/staff*
- *ei gleientiaid*
- *ei feysydd diddordeb*
- *yr Aelodau Cynulliad y cysylltwyd â hwy*
- *faint o arian sydd wedi'i wario ym mhob maes lobïo eang*

1. *Gellid annog a chefnogi cod ymarfer gwirfoddol o'r fath pe bai'r Llywydd yn ystyried effeithiolrwydd trefniant o'r fath bob tair blynedd ac, os nad oedd yn hapus, yn gwahodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ystyried a oes angen rheoliadau statudol.*

2. *Ni fyddai trefniant o'r fath yn gosod baich ar gyllid cyhoeddus, a ni fyddai'n rhoi i Aelodau y dasg amhosibl bron o orfod cofnodi pob cyfarfod anffurfiol neu orfod penderfynu pwy sy'n lobïwr, ond byddai'n rhoi i'r cyhoedd yr atebolrwydd sydd ei angen yn y maes hwn.*